OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1357

# Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

## RHAN 2

RHEOLWYR

### Penodi rheolwr

**10.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu a rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith o—

(a) enw'r person a benodwyd yn unol â'r rheoliad hwn; a

(b) y dyddiad y mae'r penodiad i fod yn effeithiol.

(2) O ran y swyddog a benodir gan yr awdurdod lleol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu—

(a) rhaid iddo fod yn weithiwr cymdeithasol; a

(b) mae'n orfodol

(i) bod ganddo gymhwyster NVQ lefel 4 o leiaf mewn rheoli neu gymhwyster arall sy'n cyfateb o ran y cymwyseddau sy'n ofynnol gan NVQ lefel 4, neu

(ii) y bydd yn dechrau ymgymryd â'r cymhwyster pan benodir ef i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu, ac y bydd yn ennill y cymhwyster o fewn 3 blynedd i ddyddiad ei benodi, neu

(iii) y bydd yn ennill y cymhwyster erbyn y cyfryw ddyddiad diweddarach ag y byddo'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno arno, mewn amgylchiadau eithriadol; ac

(c) mae'n orfodol bod ganddo ddwy flynedd o leiaf o brofiad o weithio o fewn cyd-destun gofal plant, sef profiad a allai gynnwys rheoli asiantaeth fabwysiadu wirfoddol neu asiantaeth fabwysiadu awdurdod lleol, a hynny o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

(3) Rhaid i'r awdurdod hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os bydd y person a benodwyd o dan baragraff (1) yn peidio â bod yn rheolwr y gwasanaeth mabwysiadu.

### Ffitrwydd rheolwr

**11.**—(1) Dim ond person sy'n ffit i ymgymryd â'r swydd a gaiff fod yn rheolwr gwasanaeth mabwysiadu.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli gwasanaeth mabwysiadu—

(a) onid yw'r person hwnnw yn berson gonest o gymeriad dilychwin;

(b) o ystyried maint yr awdurdod a'i ddatganiad o ddiben—

(i) onid oes ganddo'r cymwysterau, y sgiliau, a'r profiad sy'n angenrheidiol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu; a

(ii) onid yw'n ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu; ac

(c) onid oes gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r person hwnnw o ran pob un o'r materion a bennir yn Atodlen 3.

**Gofynion cyffredinol**

**12.**—(1) Rhaid i'r rheolwr, o ystyried—

(a) maint yr awdurdod lleol a'i ddatganiad o ddiben; a

(b) yr angen am ddiogelu a hybu lles plant a allai gael eu lleoli neu sydd wedi eu lleoli gan yr awdurdod i'w mabwysiadu,

reoli'r gwasanaeth mabwysiadu gyda gofal, hyfedredd a sgil digonol.

(2) Rhaid i'r rheolwr ymgymryd o bryd i'w gilydd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu.

**Hysbysu o dramgwyddau**

**13.** Rhaid i reolwr a gollfernir o unrhyw dramgwydd, p'un ai yng Nghymru neu yn rhywle arall, ysgrifennu i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith—

(i) o ddyddiad a lle'r gollfarn;

(ii) o'r tramgwydd; a

(iii) o'r gosb a osodwyd mewn perthynas â'r tramgwydd.